

Chwalu'r mythau am sgrinio serfigol a chanser ceg y groth

YSBRYDOLI MERCHED
SyM

Prawf am ganser yw sgrinio serfigol

Nid prawf am ganser ceg y groth yw sgrinio serfigol. Mae wedi'i fwradiu i helpu i atal canser trwy chwilio am newidiadau annormal mewn celloedd a achosir gan HPV (Feirws Papiloma Dynol), er mwyn iddynt gael eu monitro neu roi triniaeth gygnar os oes angen.

Nid oes angen sgrinio serfigol ar ferched Lesbiaidd, hoyw a deurywiol

Mae unrhyw un sydd â cheg y groth, waeth beth fo ei chyfeiriadedd rhywiol, yn gymwys i gael sgrinio serfigol. Mae hyn oherwydd bod HPV (Feirws Papiloma Dynol), sy'n achosi bron pob achos o ganser ceg y groth, yn gallu cael ei drosglwyddo trwy unrhyw fath o gysylltiad rhywiol.

Nid oes angen sgrinio serfigol ond os ydych chi'n cael rhyw ar hyn o bryd

Gall HPV aros heb ei ganfod yn y corff am flynyddoedd lawer heb achosi problemau. Fodd bynnag, gall achosi i gelloedd newid. Gall mynd i gael sgrinio serfigol yn rheolaidd helpu i atal canser ceg y groth trwy chwilio am annormaleddau.

Mae canlyniad annormal i sgrinio serfigol yn golygu bod canser gennyh chi

Mae canlyniad annormal i'r prawf yn golygu bod yna newidiadau annormal mewn celloedd yng ngheg eich croth, ond nid yw'n golygu bod canser gennyh chi. Anaml iawn mae rhywun yn cael diagnosis o ganser ceg y groth trwy sgrinio serfigol. Prawf yw hwn i atal canser, nid ei ganfod. Yn ôl Jo's Cervical Cancer Trust, llai nag 1% o'r bobl â chanlyniad annormal i sgrinio serfigol fydd â chanser ceg y groth.

Nid oes angen ichi gael sgrinio serfigol os ydych chi wedi cael y brechlyn HPV

Hyd yn oed os ydych chi wedi cael y brechlyn HPV, mae sgrinio serfigol yn dal i fod yn bwysig er mwyn helpu i atal canser ceg y groth. Mae'r brechlyn HPV yn helpu i ddiogelu menywod rhag pedwar math o HPV, y mae dau ohonyn nhw'n achosi mwy na 70% o'r achosion o ganser ceg y groth yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, gall sgrinio serfigol ddal i ganfod newidiadau mewn celloedd sydd wedi'u hachosi gan fathau eraill o HPV yn gygnar, fel y gallwch gael y gofal neu driniaeth iawn.

Mae sgrinio serfigol yn boenus iawn bob amser

Gall sgrinio serfigol fod yn anghyfforddus i rai pobl, ond ni ddylai fod yn boenus. Os ydych chi'n teimlo unrhyw boen yn ystod y prawf, dywedwch wrth y meddyg neu'r nyrs. Cofiwch, mae llawer o ffyrdd o wneud sgrinio serfigol yn fwy cyfforddus. Mae'r GIG yn argymhell gofyn i'r nyrs ddefnyddio sbecwlwm llai a dod â rhywbeth i wrando arno neu i'w ddarllen, er enghraifft. I gael mwy o awgrymiadau, ewch i Jostrust.org.uk/smeartest.

Nid oes angen ichi gael sgrinio serfigol os yw'r un partner rhywiol gennyh ers amser hir

Hyd yn oed os ydych chi wedi bod gyda'r un person ers amser hir, mae risg o hyd ichi gael canser ceg y groth gan y gall HPV aros yn eich corff am flynyddoedd lawer. Felly mae sgrinio serfigol yn dal i fod yn bwysig.



5

MUNUD SY'N BWYSIG

MAE SGRINIO SERFIGOL YN
ACHUB BYWYDAU

DIM OND **5 MUNUD** MAE SGRINIO SERFIGOL YN EI GYMRYD AC MAE'N UN
O'R FFYRDD GORAU O DDIOGELU'CH HUN RHAG CANSER CEG Y GROTH

#5MUNUDSY'NBWYSIG
WWW.THEWI.ORG.UK

